# CYNLLUN CYNEFIN
# DEINIOLEN



*Deiniolen*, Peter Prendergast


Datblygwyd gan:

Mari Beynon Owen

Julia Thomason, Julia Thomason Associates

Rob Chambers, Chambers Conservation

**Cynnwys**


1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Demograffeg a Phroffil Economaidd
4. Cyd-destun Strategol
5. Prosiectau Adfywio
6. Archwiliad o'r Gymuned
7. Isadeiledd a Gwasanaethau
8. Ymgynghori
9. Asesiad Ymwelwyr
10. Asesiad o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol
11. Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd
12. Casgliadau ac Argymhellion
13. Ffynonellau Ariannu Posib
14. Rhestr atodiadau:

Atodiad 1: Rhestr o'r unigolion/mudiadau y cysylltwyd â nhw
Atodiad 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog/Sectorau Cyflogaeth
Atodiad 3: Proffil ymwelwyr/twristiaeth
Atodiad 4: Astudiaeth o Gyfleodd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

## 1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Cynefin hwn yn cyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a'i ddau amcan yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi
- Hyrwyddo adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd i hysbysu datblygiad y Cynllun, a oedd yn cynnwys:

- Adolygiad dogfennol a data o ddemograffeg a phroffil economaidd Deiniolen, y cyd-destun strategol, prosiectau adfywio, a phroffil ymwelwyr/twristiaeth
- Asesiadau manwl o isadeiledd y pentref, a'r gwasanaethau, y ddarpariaeth gymunedol, y cynnig i'r ymwelydd, a'r amgylchedd adeiledig hanesyddol - yn eu mysg, gwnaed gwaith archwilio o safbwynt yr 'ymwelydd cudd'
- Asesiad o gryfderau a gwendidau allweddol Deiniolen, a'r heriau a'r cyfleoedd yma
- Adnabod y prif ffynonellau ariannu posib er mwyn gallu blaenoriaethu/mesur dichonoldeb prosiectau
- Casgliadau ac argymhellion, lle nodwyd y themâu ar gyfer datblygu Llanberis.

Ynghyd â'r Cynllun Cynefin, paratowyd Cynllun Gweithredu, sydd yn nodi ac yn blaenoriaethu prosiectau cyfredol ac arfaethedig, ynghyd ag adnoddau gofynnol, amserlenni, arweinydd prosiect a darpar bartneriaid. Mae hon yn ddogfen weithredol, a gaiff ddiweddaru'n rheolaidd a'i hadolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliaid. Adnabuwyd y prosiectau yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil eilaidd**:

- Dengys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mai mynediad i wasanaethau a thai yw meysydd mwyaf arwyddocaol amddifadedd yn Neiniolen ac mai ym maes addysg mae'r lleiaf o amddifadedd.
- Dengys data o gyfrifiad 2011 fod cyfradd diweithdra ychydig yn uwch (7%) yn Neiniolen na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (5.5%) ac yng Nghymru (6.5%).
- Daeth yn amlwg mewn arolwg ar-lein (wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd) fod angen mynd i'r afael â chyfleusterau i'r cyhoedd ac ymwelwyr, gan gynnwys atyniadau o safon i ymwelwyr; mynediad i isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys parcio; ymddwyn yn gyfeillgar tuag at dwristiaid; siopa/cyfleoedd siopa.
- 2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd, gyda gwariant o dros £1 biliwn, dros 7 miliwn o ymwelwyr, a chynnydd mewn gwario arian y tu allan i fisoedd yr haf.
- Daw ymwelwyr i Wynedd oherwydd ei thirwedd, ei chefn gwlad a'i thraethau, yn ogystal â'r gweithgareddau awyr agored helaeth sydd yma. Datganodd 82% o ymwelwyr eu bod yn fodlon iawn gyda'u hymweliad, a dywedodd 98% y byddent yn debygol o ddychwelyd i Wynedd.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil cynradd**:

- Angen **bywiogi canol y pentref** er lles y gymuned ac ymwelwyr
- **Gwella gwasanaethau cludiant** – byddai gwasanaeth bws cymunedol o fudd i'r henoed; gallai gwasanaeth cludiant cyhoeddus integredig rhwng Llanberis ac Allt Ddu liniaru tagfeydd trafnidiaeth yn y ddau bentref
- **Gwella adnoddau i ymwelwyr** a'u hannog i ymweld â chanol y pentref
- Darparu ystod **o wasanaethau hamdden** er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc yng ngweithgareddau'r pentref
- Creu cyfleoedd i **gyflwyno a dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y pentref;** datblygu digwyddiadau, gweithgareddau a gofodau arddangos.
- Adnabod **llwybrau mynediad newydd** i Chwarel Dinorwig a ffyrdd i gysylltu Llanberis a Deiniolen; creu llwybrau natur newydd a defnyddio'r hen lein fach fel llwybr beicio; adolygu arwyddion a dulliau dehongli eraill
- Sicrhau bod **amgylchedd adeiledig hanesyddol** y pentref a'r chwarel yn cael ei warchod a darganfod defnydd newydd i adeiladau hanesyddol a rhai sydd o ddiddordeb pensaernïol.

## 2 Cyflwyniad

Datblygwyd y Cynllun Cynefin i gyd-fynd â datblygiad y Cais Safle Treftadaeth Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi ac i hyrwyddo adfywio economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Deiniolen yw'r enw mwyaf diweddar ar anheddiad Cynfi, ar lethrau mynydd Elidir. Pan adeiladwyd capel Ebenezer yno yn 1823, rhoddwyd enw'r capel ar y pentref. Ond mae enw answyddogol y pentref, Llanbabo/Llanbabs, yn dal i gael ei ddefnyddio ac mae'n cyfeirio at bentref Llanbabo ar Ynys Môn, o le teithiau'r dynion i weithio yn Chwarel Dinorwig gan aros yno am yr wythnos yn y barics.

O 1809 ymlaen, datblygwyd y chwarel gan bartneriaeth busnes dan arweinyddiaeth Assheton Smith, o ystâd y Faenol, a ffynnodd y fenter ar ôl agor lein fach i'r Felinheli (Port Dinorwic) a dynnid gan geffylau, ym 1824. Ar ei hanterth yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lledaenai'r chwarel dros 700 erw, a chyflogwyd dros 3,000 o ddynion yno. Hon oedd y chwarel lechi brig fwyaf ond un y wlad, yn wir yn y byd - Chwarel y Penrhyn ym Methesda oedd y fwyaf. Erbyn 1930 gostyngodd y nifer a gyflogwyd yn Ninorwig i 2,000; a pharhawyd â'r cloddio yno tan 1969.

Mae pentrefi Deiniolen/Dinorwig yn adnabyddus am eu llwybrau dringo cyfagos, ac fel y brif fynedfa i chwarel Dinorwig.

Poblogaeth ward etholiadol Deiniolen, sy'n cynnwys Clwt y Bont a Dinorwig, yw 1,909 (ffynhonnell: Cyfrifiad 2011).

## 3 Demograffeg a Phroffil Economaidd

- Mae gan Ddeiniolen boblogaeth o 1,909; mae 1,361 (71%) o oedran gweithio, sef 16-64
- Mae 69% o'r boblogaeth yn weithgar yn economaidd; darperir gwybodaeth fanwl am y sectorau cyflogaeth yn Atodiad 2
- Dynodwyd 31% yn anweithgar yn economaidd; â 7% ohonynt yn ddi-waith, a 20% yn sâl tymor hir/anabl
- Mae 25% o'r boblogaeth (16+) heb unrhyw gymhwyster
- Mae 65% o'r boblogaeth yn berchen ar dŷ; 20% yn byw mewn tai cymdeithasol; a 15% yn rhentu'n breifat;
- Mae 23% o aelwydydd heb gar;
- Mae 80% o'r boblogaeth mewn iechyd da iawn/da; 14% mewn iechyd gweddol; a 6% yn wael eu hiechyd
- O ran dosbarth cymdeithasol, mae 24% yn bobl broffesiynol a rheolwyr; mae gan 31% sgiliau; 32% a chanddynt rai/dim sgiliau; a 12% yn fyfyrwyr/arall.

Cymhariaeth o'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru:

- Mae'r gyfran o'r boblogaeth sydd yn weithgar yn economaidd (69%) yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (65%) a Chymru (66%); ac felly mae'r gyfran o'r boblogaeth sydd yn anweithgar yn economaidd (31%) yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (35%) ac yng Nghymru (34%)
- Mae cyfraddau diweithdra (7%) fymryn yn uwch na chyfartaledd Gwynedd (5.5%) a Chymru (6.5%)
- Mae'r gyfran o'r boblogaeth (20%) sydd yn sâl tymor hir/anabl yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (12.5%), ond yn gymesur â chyfartaledd Cymru (18%).
- Mae cyfran y boblogaeth (16+) sydd heb gymwysterau (25%) yn gymesur â chyfartaledd Gwynedd (23%) a Chymru (26%)
- Mae perchnogaeth tai (65%) yn cyfateb i'r cyfartaledd yng Ngwynedd (66%) a Chymru (68%).
- Mae cyfran yr aelwydydd heb gar (23%) yn gymesur â chyfartaledd Gwynedd (21%) a Chymru (23%)
- Mae nifer y bobl mewn iechyd da/da iawn (80%) yn Neiniolen yn debyg i'r cyfartaledd yng Ngwynedd (81%) a Chymru (78%); mae'r nifer sydd mewn iechyd gweddol ac sy'n sâl/sâl iawn hefyd yn cyfateb i'r cyfartaledd.
- Mae gan Ddeiniolen gyfartaledd ychydig yn is (24%) o bobl dosbarth proffesiynol a rheolwyr na'r cyfartaledd (Gwynedd a Chymru, 27%); mae aelodau'r gymuned a chanddynt rai/dim sgiliau (32%) yn uwch na'r cyfartaledd (26% yng Ngwynedd a 29% yng Nghymru). Mae'r gyfran o'r gymuned a chanddynt sgiliau yn gymesur â'r cyfartaledd. Ond, mae canran y myfyrwyr (12%) yn is na'r cyfartaledd (17% yng Ngwynedd a 15% yng Nghymru).

Prif gyflogwyr ardal Deiniolen/Llanberis yw:

**Siemens Healthineers** – cyfleuster cynhyrchu offer meddygol. Cyflogir dros 400 mewn amrywiol swyddi, gan gynnwys gwyddonwyr, peirianwyr, gweithrediadau, cyfrifwyr, rheolwyr ansawdd, prynwyr, a thechnegwyr labordy.

**DMM International** – gwneuthurwr offer mynydda, sydd yn cyflogi dros 150 ar hyn o bryd, ac ar fin sefydlu ffatri yn Denver, Gogledd America.

**Gorsaf Ynni Dinorwig; Engie/First Hydro** – cyflogir 180 yng Ngorsaf Ynni Dinorwig a Ffestiniog.

**Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol** – cyflogir 14 gan y sefydliad.


**Menter Fachwen** – cwmni menter gymunedol sy'n cyflogi 24 ac yn cefnogi 52 unigolyn, sydd yn cyfateb â 35 swydd llawn amser.

<u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</u>

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yw mesuriad swyddogol amddifadedd cymharol mewn ardaloedd llai yng Nghymru; gelwir y rhain yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Gan fod pob ACEHI yn debyg, mae'n haws gwneud dadansoddiad cymharol. Cyflwynir y Mynegai fel cyfres o rengoedd; mae rheng 1 yn cynrychioli'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a rheng 1909 yn cynrychioli'r un lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn galluogi i ni i ddeall pa ardaloedd sydd yn fwy neu'n llai difreintiedig, ond nid maint y gagendor.

Yn Atodiad 2 rydym yn cyflwyno data sy'n dangos sut mae'r ACEHI yn Neiniolen yn cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru a Gwynedd. Dengys y data mai mynediad i wasanaethau a thai yw meysydd mwyaf arwyddocaol amddifadedd Deiniolen, ac mai ym maes addysg y mae'r lleiaf o amddifadedd.

<u>Gosod ACEHI yn ôl eu rheng yng Ngwynedd</u>
Dengys y siartiau isod reng Deiniolen yng Nghymru yn ôl mesuryddion unigol. Fel nodwyd uchod, cyflwynir y data mewn mynegai yn wrthol; hynny yw, po isaf y sgôr, po uchaf yr amddifadedd ac i'r gwrthwyneb, po uchaf y sgôr, po isaf yr amddifadedd. Er enghraifft, mae'r siart isod yn dangos fod Deiniolen ar reng isel ar gyfer mynediad i wasanaethau, sy'n golygu ei fod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (o fewn y 10%- 20% uchaf) yng Nghymru.
Mae'r siart yn galluogi i ni ddeall sut y mae'r lefelau o amddifadedd yn Neiniolen yn cymharu â gweddill Cymru.




## 4 Cyd-destun Strategol

Manylir ar y cyd-destun strategol yn y ddogfen *Cyd-destun Strategol ar gyfer Ardal y Llechi* sydd ar wahân. Ond dyma grynodeb o'r polisïau sy'n dylanwadu ar weithgareddau yn ardal Deiniolen:

**Cenedlaethol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru
- Twristiaeth 2020 (Partneriaeth ar gyfer Twf), Llywodraeth Cymru
- Ffordd Cymru, Croeso Cymru
- Blynyddoedd Thematig, Croeso Cymru
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru; Cadw
- Ysbrydoli: Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Rhanbarthol/Sirol:**

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Gwella Cyngor Gwynedd 2018 – 2023, Cyngor Gwynedd
- Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Celfyddydau Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol, Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Lleol:**

- Ein Heconomïau Lleol; Cymunedau'n Adeiladu Ffyniant; Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

- Cynllun Economaidd Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru 2016 – 2020, Cyngor Gwynedd
- Dyfodol Gwledig – Deiniolen; Cronfa Loteri Genedlaethol/Severn Wye Energy Agency Ltd a Phartneriaeth BRO

## 5 Prosiectau Adfywio

### Dyfodol Gwledig

Mae Deiniolen yn un o ddeg ardal yng Nghymru sydd yn rhan o raglen Dyfodol Gwledig yng Nghymru, a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Drwy weithio mewn ardal am gyfnod hwy na dwy flynedd, diben y rhaglen yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sydd yn byw mewn tlodi mewn cymunedau bach gwledig yng Nghymru.

Gall Dyfodol Gwledig gefnogi cymunedau er mwyn mynd i'r afael â materion megis:

- incwm a chyflogaeth
- cludiant a mynediad i wasanaethau
- prinder cyfleusterau
- band llydan gwael a diffyg gwasanaeth digidol
- tai a thlodi tanwydd
- galw am wasanaethau lles a chyngor
- unigrwydd ac unigedd

Yn dilyn cyfnod dwys o ymgynghori, mae'r rhaglen yn Neiniolen yn dirwyn i ben, gyda grwpiau cymunedol a mudiadau'n gweithio ar ddatblygu prosiectau a allai fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r materion a adnabuwyd.

Mae Dyfodol Gwledig a LleChi/Cyngor Gwynedd yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau y gall Deiniolen, sydd yn un o ardaloedd y cais am Statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, ddatblygu prosiectau sy'n adlewyrchu ei hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol gyfoethog, gan ddod â budd i'r gymuned ac annog mentrau adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth.

## 6 Archwiliad o'r Gymuned

Cynhaliwyd Archwiliad o'r Gymuned er mwy cael gwell dirnadaeth o'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, sef archwiliad o'r modd y mae Deiniolen yn gweithredu fel cymuned o'r tu allan.

### Cynrychiolaeth o'r Gymuned

Yn yr adran hon rydym yn rhoi braslun o adnoddau a mudiadau cymunedol, er mwyn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r gymuned leol.

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen** – mae pentrefi Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwig o fewn ffiniau'r cyngor cymunedol.

**Menter Fachwen**: menter gymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas, ac ennyn parch a hyder, a gwella eu sgiliau.  Er mai ym mhentref cyfagos Cwm y Glo y mae, mae Menter Fachwen yn darparu nifer o wasanaethau yn Neiniolen.

Mae'n rheoli Tŷ Elidir, canolfan gymunedol sy'n darparu ystafelloedd cyfarfod, llyfrgell, a chyfleusterau clwb ieuenctid.

Yng Nghaffi Ebs, yr unig gaffi yn Neiniolen, mae gan Fenter Fachwen adnodd arlwyo/darparu hyfforddiant ar gyfer ei gleientiaid; mae ar agor bum diwrnod yr wythnos.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda Phwyllgor Pentra, sydd newydd gael ei sefydlu, ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb am reoli'r cyfleusterau chwarae a chwaraeon yn y pentref.

Mae'r **mudiadau cymunedol, diwylliannol a threftadaeth** a ganlyn yn weithgar yn Neiniolen:

- Capel Cefn y Waun
- Capel Ebenezer
- Clwb Bingo
- Cymdeithas Golff Deiniolen
- Clwb Ieuenctid
- Clwb Pêl Droed Ieuenctid
- Clwb Snwcer
- Cymdeithas Lenyddol Deiniolen
- Eglwys Crist
- Eisteddfod Deiniolen
- Gŵyl Deiniolen/Carnifal
- Lleisiau Llanbabs
- Merched y Wawr
- Pwyllgor Pentra
- Seindorf Arian Deiniolen

Cynhelir **digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol a chymunedol** yn Ysgol Gwaun Gynfi, ac yn Nhŷ Elidir.

Cynhelir Gŵyl Deiniolen ym mis Mehefin, sy'n diweddu gyda'r Carnifal. Mae gweithgareddau'r wythnos yn cynnwys Ras Ffordd 10k Deiniolen, y'i hystyrir yn un o'r anoddaf ym Mhrydain.

## 7 Isadeiledd a Gwasanaethau

**Bus:**  Mae'r gwasanaeth bws o Ddeiniolen i Gaernarfon yn mynd o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, 06.45 -17.55; ar ddydd Sul a Gwyliau Banc, dim ond tri bws sydd, sef, 09.45, 11.15, 14.45.

Mae'r gwasanaeth bws o Lanberis i Fangor yn mynd drwy Ddeiniolen o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, 06.30 – 1848; ar ddydd Sul a Gwyliau Banc, mae pum bws rhwng 08.10 a 17.48.

**Ffordd/Parcio:** Saif Deiniolen oddi ar ffordd yr A4244; nid oes maes parcio cyhoeddus yn y pentref. Mae lle i barcio ger Tŷ Elidir, y ganolfan gymunedol, a gellir parcio ar y Stryd Fawr unrhyw adeg. Mae lle i barcio ar y ffordd yn Allt Ddu, ond gall fynd yn orlawn yn ystod cyfnodau prysur, gan fod dringwyr ac ymwelwyr sydd am wneud gweithgareddau awyr agored yn ei ddefnyddio.

## 8 Ymgynghori

Ymgynghoriad Cyhoeddus Blaenorol

Yn 2013, ffurfiwyd Grŵp Dyfodol Deiniolen (GDD) gyda'r nod o sefydlu canolfan amlbwrpas er budd trigolion Deiniolen a'r fro. Ymgynghorwyd â grwpiau a mudiadau cymunedol lleol ynghylch safleoedd arfaethedig a'r amrediad o weithgareddau a'r cyfleusterau y gellid eu darparu.

Yn 2014, comisiynwyd y penseiri Russell-Hughes Ltd i gynhyrchu asesiad o'r opsiynau, ac yn hwn nodwyd adeilad Capel Ebenezer fel y dewis cyntaf. Gofynnwyd iddynt ddarparu cynlluniau cychwynnol ar gyfer addasu'r adeilad presennol ac ardaloedd newydd.
(Asesiad Opsiynau ar gyfer Neuadd Gymuned yn Neiniolen, Russell-Hughes Ltd; Grŵp Dyfodol Deiniolen, Chwefror 2014)

Rhoddwyd y capel ar werth drwy ocsiwn yn 2018, ond golygai hyn na allai GDD ddefnyddio unrhyw arian grant i'w brynu. Diddymwyd y grŵp a dosbarthwyd unrhyw arian grant a oedd dros ben i amrywiol fudiadau cymunedol lleol.

Ymgynghori Cyfredol

Mae'r gwaith ymgynghori yn Neiniolen wedi ei lywio gan raglen Dyfodol Gwledig y Loteri Genedlaethol, sy'n cael ei arwain yn lleol gan Adrian Roberts, Cydlynydd Lle ar gyfer Asiantaeth Ynni Severn Wye. Gan fod rhaglen ddwys o ymgynghori eisoes wedi'i phennu, cytunasom gyd-weithio ar ddarganfod a datblygu prosiectau o fewn y gymuned.

Buom yn y digwyddiad Stiwdio Stori Dyfodol Gwledig yn Neiniolen ym mis Tachwedd 2018; rydym wedi cyfrannu at gyfarfodydd y Grŵp Llywio Dyfodol Gwledig, ac wedi mynychu cyfarfodydd y grŵp newydd, o dan arweinyddiaeth Pwyllgor Pentra Deiniolen.

Mae prosiectau amlinellol, y gellid datblygu nifer ohonynt ymhellach trwy'r rhaglen Dyfodol Gwledig dros y misoedd nesaf, wedi eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n annibynnol gyda Menter Fachwen, y fenter gymdeithasol sy'n rheoli Tŷ Elidir, adnodd cymunedol yn Neiniolen, a Chaffi EBs, ac sydd mewn trafodaethau ynglŷn â rheoli cyfleusterau eraill yn y pentref.

Ymgynghorwyd ag Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ynglŷn â gwasanaethau dehongli a mynediad i Chwarel Dinorwig, a phrosiectau hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol ar y cyd â grwpiau cymunedol lleol.

Canfyddiadau'r Ymgynghoriad
Dyma grynodeb o'r prif faterion sy'n ymwneud â datblygiad cymunedol a nodwyd hyd yma yn sgil y broses ymgynghori.

**Dirywiad canol y pentref**
Oherwydd dirywiad economaidd, mae'r Stryd Fawr yn wag. Mae un siop fach yn y pentref, un dafarn, ac un caffi (ar agor yn ystod yr wythnos yn unig).

Does dim siop sglodion, a nodwyd fod hwn yn fwlch mawr yn y ddarpariaeth i'r gymuned. Mae'r prinder siopau a llefydd i gymdeithasu, ar wahân i Dŷ Elidir, sef y ganolfan gymunedol, yn effeithio pobl ifanc yn arbennig.

**Gwasanaethau Cludiant**
Yn ôl y trigolion, mae'r gwasanaeth bws yn afreolaidd ac annibynadwy; nid oes bysiau yn rhedeg yn hwyr y nos sy'n golygu fod y rhai sy'n teithio i Gaernarfon, i Lanberis neu i Fangor i weithio yn gorfod cael tacsi adref, sy'n golygu nad yw'n hyfyw yn economaidd ar y cyfan.

Mae prinder bysiau hefyd yn broblem i'r henoed a'r rhai sydd yn gorfod teithio i apwyntiadau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Drwy ymgynghori, codwyd y mater o wasanaeth bws cymunedol, a gâi ei redeg gan y gymuned ei hun. Mae ystyriaethau ymarferol megis yswiriant, staffio, ac ati, y byddai angen ymdrin â nhw a'u hymchwilio ymhellach.

**Adnoddau i Ymwelwyr**
Mae mwyafrif yr ymwelwyr yn gyrru i fyny i Allt Ddu, y fynedfa i Chwarel Dinorwig, sydd yn hynod o boblogaidd gyda cherddwyr, dringwyr a beicwyr. Mae yma le parcio ar y ffordd, ond ar y penwythnos ac yn ystod yr haf, mae'n orlawn. Mae nifer yn aros dros nos mewn faniau ond does dim toiledau yno.

Mae'r pwysau cynyddol ar ardal Allt Ddu yn bryder mawr, gan fod rheoli llif ymwelwyr yn dod yn fwyfwy anodd, yn enwedig o ran gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mynegodd nifer yr angen i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu maes parcio/canolfan ymwelwyr yn Allt Ddu, dan reolaeth y gymuned, a allai greu incwm er budd y pentref.

Fel amlinellwyd eisoes, mae'r diffyg siopau a chaffis yn y pentref ei hun ar hyn o bryd yn golygu nad yw Deiniolen yn elwa o wariant ymwelwyr yn yr ardal.

**Cyfleusterau hamdden**
Mae pêl droed yn rhan bwysig o dreftadaeth Deiniolen, gan fod y chwarel yn golygu fod yna gyflenwad parod o ddynion ifanc cyhyrog a fyddai'n cymryd rhan mewn chwaraeon i ymlacio. Mae tîm ieuenctid y pentref yn defnyddio cae chwarae Cae Bwthyn, sef prif gae pêl droed y pentref.

Mae cynnal a chadw meysydd chwarae'r pentref a gwella'r cyfleusterau yng Nghae Bwthyn yn bwysig iawn i Bwyllgor Pentra, a ffurfiwyd yn ddiweddar er mwyn gwarchod cyfleusterau'r pentref i bobl ifanc a darparu mwy o weithgareddau hamdden ac adloniant iddynt.

Llwyddodd y Pwyllgor i gael arian i ail agor y Clwb Ieuenctid yn Nhŷ Elidir, gyda rhieni yn darparu goruchwyliaeth ac yn trefnu gweithgareddau. Mae tua 30 o bobl ifanc yn mynychu bob wythnos. Prosiectau eraill sydd dan ystyriaeth yw cae pob tywydd a pharc sgrialu, a fyddai'n ddibynnol ar arian grant.

**Dehongli, a hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol**
Mae'r cais am Statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO wedi codi ymwybyddiaeth o'r angen i gofnodi, dehongli a chyflwyno hanes y pentref ac, wrth gwrs, y chwarel a'i chymdeithas.

Yn gynharach eleni, daeth criw bach a chanddynt ddiddordeb at ei gilydd i ffurfio grŵp cerdded, dan arweiniad hanesydd lleol, ac fe'i hariannwyd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Mae'r grŵp wedi cynhyrchu adolygiad cynhwysfawr o'r cyfleoedd dehongli: arwyddion newydd; defnydd o dechnoleg ddigidol megis Pwyntiau Hanes; darparu adnoddau dehongli; taflenni gwybodaeth newydd a mapiau ar gyfer yr ardal. Cyflwynwyd yr adroddiad i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen a LleCHI ym Mehefin 2019. Mae'r argymhellion wedi eu cynnwys yn y prosiectau a nodir yn y Cynllun Gweithredu atodol.

<u>Seindorf Arian Deiniolen</u> – sefydlwyd y seindorf ym 1835, ac mae'n adlewyrchu'r ymdeimlad o hanes a rennir a chymuned sydd yn unigryw i ardal y chwareli llechi: ymdeimlad o le; arwyddocâd y cwt band cymunedol; balchder yn ei hanes cerddorol; cynnal traddodiad ac annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp a dysgu gallu creadigol newydd.

Hoffai'r band weld ei hanes a'i gyfraniad at gryfhau hunaniaeth y pentref yn cael ei ddehongli'n fwy, er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg aelodau iau o'u treftadaeth gerddorol.

Mae <u>Menter Fachwen</u> yn ystyried sefydlu arddangosfa o hen luniau ac ati yn Nhŷ Elidir er mwyn cryfhau'r teimlad o hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol ymhlith defnyddwyr y ganolfan.

Trefnodd yr <u>Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis</u> nifer o ddigwyddiadau dros haf 2019 i gofnodi cau Chwarel Dinorwig ym 1969: teithiau cerdded tywys; gweithdai i ysgolion; cyngerdd/digwyddiad coffáu; prosiect hanes llafar; cofnodi enwau ponciau a llwybrau'r chwarel; dangosiadau o ffilmiau o'r archif.

**Isadeiledd, Cyfeiriadedd a Chysylltiadau**
Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen a LleCHi yn argymell gosod arwyddion newydd, a chreu llwybrau newydd yn y chwarel er mwyn creu cylchdaith rhwng Dinorwig a Llanberis a fyddai'n cysylltu â'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda thirfeddianwyr am ffyrdd newydd posib i mewn i ardal y chwarel.

Posibilrwydd arall a nodwyd gan Fenter Fachwen, yw creu cyfres o lwybrau natur yn ardal Dinorwig/Llanberis, a fyddai, pe câi ei gyfuno â phrosiect plannu coed, a phe câi gefnogaeth ffermwyr lleol, yn gwella'r amgylchedd naturiol, yn hyrwyddo galluoedd traddodiadol megis gosod crawiau, ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae Sustrans (elusen genedlaethol yn y DU sydd yn anelu at hwyluso cyfleoedd cerdded a beicio) yn awyddus i gyd-weithio gyda mudiadau cymunedol lleol i ddatblygu llwybrau beicio newydd; un llwybr newydd a nodwyd gan y Grŵp Dehongli yw'r hen lein fach.

## 9 Asesiad Ymwelwyr

Yn yr adran hon rydym yn asesu'r hyn sydd gan Ddeiniolen i'w gynnig i'r ymwelydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm â datblygu'r pentref at y dyfodol.

(Gweler proffil yr ymwelydd/twristiaeth cyffredinol yr ardal yn Atodiad 3)

Cynllun/Cyrraedd

Saif Deiniolen uwchlaw Llyn Padarn, yn edrych dros Lanberis. Mae'r lleoliad yn ddramatig gyda golygfeydd panoramig i lawr at yr arfordir a thraw am Ynys Môn, ac i fyny wedyn tuag at Yr Wyddfa ac Elidir Fawr, sydd yn gefnlen i bonciau glas mawreddog Chwarel Dinorwig. Y fan hon yw un o'r llefydd gorau i weld ysblander Eryri.

Rhed y ffordd oddi ar yr A4244 a thrwy'r prif bentref am Ddinorwig cyn dod i ben yn Allt Ddu, y brif fynedfa i Chwarel Dinorwig, a lle mae bws rhif 85 yn dod i ben ei daith.

Gwybodaeth ymwelwyr: cyfeiriadedd/arwyddion/gwybodaeth

Nid oes unrhyw baneli gwybodaeth/dehongli yn Neiniolen, nac yn Ninorwig na'r Allt Ddu.

Mae rhai paneli dehongli am y diwydiant llechi y tu mewn i Gaffi'r Lodge yn Ninorwig ond nid y tu allan ar gyfer y cyhoedd.

Cyfleusterau

**Cyfleusterau cyhoeddus:** does dim ar gael, sydd yn broblem fawr am fod pobl yn aros dros nos mewn faniau yn Allt Ddu heb unrhyw gyfleusterau ar eu cyfer.

**Caffis/bwytai:** Caffi EBs, Deiniolen – caffi cartrefol, sy'n cael ei redeg gan fenter gymdeithasol leol, Menter Fachwen. Mae'n cynnig gwaith a hyfforddiant i'w gleientiaid a chanddynt anableddau. Mae ar agor yn ystod yr wythnos yn unig, o 09.00 tan 16.00. Caffi'r Lodge, Dinorwig – bwyd da, awyrgylch hamddenol, wedi ei anelu at gerddwyr/dringwyr gan ei fod hefyd yn hostel; ar agor o ddydd Iau tan ddydd Llun, 09.00 – 16.00.

Atyniadau a Gweithgareddau i Ymwelwyr

Nid oes unrhyw atyniadau na gweithgareddau i ymwelwyr yn Neiniolen, ond gan fod Yr Wyddfa a Llanberis mor agos, mae'n hawdd cyrraedd y **prif atyniadau a ganlyn:**

**Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol** – yn y gweithdai Fictoraidd gwreiddiol ar safle hen chwarel lechi Dinorwig y mae'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol. Mae'r amgueddfa weithredol yn cyflwyno hanes diwydiant llechi Gogledd Cymru trwy arddangosiadau byw, sgyrsiau, arddangosfeydd, digwyddiadau a dehongli. Fe'i rheolir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac mae'n denu oddeutu 142,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

**Yr Wyddfa** - daeth 557,991 o ymwelwyr yno yn 2018, sef cynnydd o 32,838 ar ffigyrau 2017.

**Rheilffordd Yr Wyddfa** – dringa'r rheilffordd lethr o 1,085 medr uwchlaw'r môr i gyrraedd copa'r Wyddfa. Ar gyfartaledd, mae hanner miliwn o bobl yn dod i Ganolfan Hafod Eryri ar y copa bob blwyddyn.

**Parc Padarn** – mae Parc Gwledig Padarn yn ymestyn dros 800 erw. Ymysg y cyfleusterau a'r gweithgareddau mae: caffis; lle chwarae i blant; llwybrau natur gydag arwyddbyst; cwrs antur rhaffau ac ysgolion i blant ac oedolion; Lôn Las Peris, llwybr beicio i'r teulu; llwybrau cerdded, gan gynnwys llwybr 8k o amgylch Llyn Padarn; Chwarel Vivian, heneb gofrestredig; Canolfan Blymio Vivian; a thri safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

**Llyn Padarn** – rhyw ddwy filltir o hyd ac, ar ei ddyfnaf, mae'n 94 troedfedd (29m), sy'n golygu ei fod yn un o'r llynnoedd naturiol mwyaf yng Nghymru. Mae'n gynefin i'r pysgodyn prin, y torgoch. Caniateir rhwyfo, hwylio a chaiacio; ac mae glanfa lansio cychod. Ymysg y gweithgareddau ar y llyn mae: Canolfan Chwaraeon Dŵr Padarn, cwch Seren yr Wyddfa a Chychod Padarn.

**Rheilffordd Llyn Padarn** - lein fach dreftadaeth sy'n mynd am 2.5 milltir ar hyd glan ogleddol Llyn Padarn.

**Ysbyty'r Chwarel** – mae'r amgueddfa'n cyflwyno hanes gofal iechyd oes Fictoria mewn ward hen ysbyty, ac ymysg y gwrthrychau llawdriniaeth sy'n cael eu harddangos mae offer ysbyty o'r 19eg ganrif.

**Mynydd Gwefru** – gall ymwelwyr fynd mewn bws at yr orsaf yng nghrombil y ddaear, sy'n 750 medr y tu mewn i'r mynydd, i weld y pympiau a'r tyrbinau ar waith.

**Castell Dolbadarn** – fe'i hadeiladwyd yn y 13eg ganrif gan Llywelyn Fawr. Cadw sydd yn gyfrifol am y castell, sy'n Radd I Rhestredig, fel atyniad i ymwelwyr (heb staff).

Digwyddiadau

Cynhelir y **digwyddiadau** a ganlyn ym mhentref Deiniolen:

- Ras Ffordd 10k Deiniolen – ystyrir fod y ras flynyddol hon yn un o'r cyrsiau ffordd 10k anoddaf yn y DU; fe'i cynhelir ym mis Mehefin gyda dim mwy na 200 o redwyr.

- Carnifal Deiniolen - cynhelir y Carnifal ddiwedd mis Mehefin ac eleni dathlodd ei ddengmlwyddiant.

Darpariaeth Llety

Er nad oes llety â gwasanaeth yn Neiniolen ei hunan, mae pedwar llety gwely a brecwast yn y cyffiniau, ynghyd â'r canlynol:

- **Hostel Snowdon Inn Hostel**, dau fyncws (deg gwely/wyth gwely); dau gae gwersylla.
- **Hostel Lodge Dinorwig**, ystafell 14 bync.
- **Maes Carafanau Snowdon View**, safleoedd tymhorol ar gyfer carafanau teithiol a charafanau sefydlog i'w rhentu.
- **Maes Carafanau a Phebyll Llys Derwen**, safle ar gyfer faniau teithiol, cartrefi modur, a phebyll; dau gae i bebyll; dwy garafán sefydlog i'w rhentu.
- **Parc Gwyliau Brynteg**, tai gwyliau a charafanau sefydlog; nifer o weithgareddau antur ar gyfer gwesteion a phreswylwyr.
- **Cae Mabon**, canolfan encil eco gyda saith preswylfa wedi eu hadeiladu allan o fyrnau gwellt, boncyffion cedrwydden, clom, carreg, to gwellt, tywarch, pren a chywarch; gall hyd at 30 person gysgu yno.

Yn ogystal â'r lletyau hyn, sydd yn agos iawn at Ddeiniolen, mae saith llety gwely a brecwast, chwe gwesty bach, chwe gwesty, tri byncws, dau faes carafanau teithiol, un hostel, un maes gwersylla, ac un dafarn gyda stafelloedd yn Llanberis a'r ardal gerllaw.

Mae nifer fawr o lety hunan-ddarpar; rhestrir 152 o lefydd gwyliau ar osod ar Trip Advisor o fewn 10k i Ddeiniolen, ac 11 o lefydd Airbnb yn Neiniolen ei hun.

Mae arolwg stoc gwelâu yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru unwaith y bydd y canfyddiadau ar gael.

Proffil Ar-lein Deiniolen

Mae'r proffil ar-lein yn gyfyngedig. Wrth chwilio ar-lein ymddangosodd sawl dolen i dai gwyliau yn agos at neu yn Neiniolen. Heblaw am dudalen Wikipedia nid oes gwefan na fforwm ar-lein yn rhoi gwybodaeth am Ddeiniolen, a bydd hyn yn sicr o gyfrannu at y canfyddiad mai cyfyng yw'r cyfleusterau i dwristiaid yn Neiniolen.

Adolygiadau gan Ymwelwyr

Oherwydd prinder adnoddau i ymwelwyr yn Neiniolen nid oes yna unrhyw adolygiadau am y pentref ei hun. Daethpwyd o hyd i sylwadau am Ddeiniolen mewn adolygiadau o lety hunan-ddarpar yn y pentref, ond, gan eu bod yn adolygiadau eilaidd, maent yn gyfyngedig, er yn ddefnyddiol:

Ymhlith adolygiadau cadarnhaol o Ddeiniolen mae'r sylwadau hyn: 'lleoliad hyfryd', a 'phentref bach hyfryd sydd ddim yn rhy bell o unman'; mae yna 'olygfeydd ardderchog a

llwybrau o Ddeiniolen' ac 'mae'r ardal gyfagos yn wych i fforio ar droed neu mewn car'. Adolygiadau negyddol: 'dim tafarndai na bwytai lleol sy'n werth sôn amdanynt' a 'pentref cysglyd, heb lawer o gwmpas' (Airbnb a Trip Advisor).

## 10 Adeiladau a'r Amgylchedd Adeiledig

Rydym wedi cynnal **asesiad o'r dreftadaeth adeiledig,** a roddodd ystyriaeth i'r meini prawf a ganlyn:

**Diogelwch Statudol:**

- Adeiladau rhestredig (yn ôl gradd: I, II*, II)
- Henebion Cofrestredig
- Adeiladau a nodweddion o fewn Ardaloedd Cadwraeth

**'Statws mewn perygl':**

- Fel y'u diffinnir gan gofrestr adeiladau mewn perygl Cadw (BAR) ar gyfer pob ardal unigol. Dyma'r dosbarthiadau:
    - Mewn Perygl
    - Bregus
    - Ddim mewn perygl
- Wedi ei seilio ar archwiliad byr o'r tu allan (gan nodi a yw'r defnydd yn amlwg , a yw'r adeilad yn ymddangos yn anghyfannedd neu'n fregus)

**Cyd-destun treftadaeth y diwydiant llechi:**

- Y pwysigrwydd yng nghyd-destun treftadaeth diwydiant llechi'r ardal (er nid yw cwmpas y gwaith yn caniatáu asesiadau treftadaeth neu ymchwil ar adeiladau unigol neu safleoedd unigol)
- Adborth o'r broses ymgynghori am amgyffrediad pobl leol o bwysigrwydd adeilad, nodwedd neu safle
- Cynnig detholiad cynrychiadol o adeiladau a oedd yn cefnogi'r diwydiant llechi a'i chymunedau.

**Potensial adfywio a dehongli:**

- Potensial adeilad unigol neu safle i gyfrannu at adfywio'r ardal, at ddarparu cyfleoedd dehongli arwyddocaol neu gyfleoedd eraill.

Trafodwn ein canfyddiadau yn llawn yn Atodiad 4. Isod, ceir crynodeb o brosiectau'r amgylchedd adeiledig wedi eu blaenoriaethu.

Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Rhestrir yr holl brosiectau yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Dyma'r **safleoedd a ddylid eu blaenoriaethu:**

1. **Felin Sarn**, hen felin a gynhyrchai lechi ysgrifennu. O bell ffordd dyma'r adeilad pwysicaf (II*) yn Neiniolen. Ar hyn o bryd, defnyddir rhan ohono fel safle diwydiannol, mae strwythurau pwysig cyfagos yn anghyfannedd. Posibilrwydd i greu canolfan i'r ardal, gyda gweithle, cyfleusterau i ymwelwyr, llety, a dehongli/ail-greu rhan o'r felin. Gellid creu llwybrau cerdded newydd i'r chwareli a Deiniolen/Clwt y Bont. Gallai hefyd fod yn safle bws gwennol parcio a theithio ar gyfer Allt Ddu. Angen asesiad opsiynau.

2. **Siop y Gornel**, ar y Stryd Fawr. Gallai fod yn brosiect cymunedol bach. Heb ei restru ond mewn lle da ac yn un o adeiladau cynharaf y pentref c. 1830. Posibilrwydd o greu siop sglodion/becws/deli, ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr. Gallai fod angen astudiaeth dichonoldeb bach.

3. **Hen Lyfrgell Carnegie** – Gellid defnyddio rhan o'r adeilad i gefnogi'r ddarpariaeth i bobl ifanc, a hefyd i ddehongli'r adeilad allweddol hwn. Angen asesiad opsiynau.

4. **Trewedd.** Mae Deiniolen wedi dioddef yn sgil y defnyddiau anghydnaws sy'n gorchuddio nifer o adeiladau. Gellid gwella ymddangosiad y pentref yn fawr drwy gyflwyno rhaglen benodol o welliannau, addurno neu gael gwared â'r gro chwipio, ail-gyflwyno nodweddion traddodiadol, a chynnal gwaith i dwtio'r stryd.  Dylai hyn gyd-fynd â strategaeth ac ethos dylunio clir, wedi eu seilio ar ddealltwriaeth o gymeriad y pentref.

5. **Llwybrau a Chysylltiadau'r Chwarel** Dylid ystyried llwybrau a chysylltiadau newydd (o bosib ar y cyd â phrosiect Felin Sarn) er mwyn darparu llwybrau cerdded neu feicio i Ddinorwig a'r chwareli. Gallai'r rhain ddefnyddio ffyrdd presennol a hanesyddol, gan gynnwys yr hen ffordd haearn bach (a redai drwy Glwt-y-Bont o'r chwareli).

## 11 Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil mae'n amlwg fod Deiniolen yn wynebu rhai heriau sylfaenol, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os yw'r pentref am wneud y mwyaf o'r budd a ddaw gydag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Dyma grynodeb o'r prif sialensiau a'r cyfleoedd a fyddai'n galluogi'r dref i'w hwynebu.

Dadansoddiad SWOT (CGCB)
Mae'r dadansoddiad SWOT (CGCB) yn asesu Deiniolen o safbwynt yr ymwelydd ac aelodau'r gymuned, ac mae'n crynhoi cryfderau, gwendidau, cyfleodd a bygythiadau'r cynnig i ymwelwyr a'r ddarpariaeth i drigolion:

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| **CYMUNED** | **CYMUNED** |
| • Ymdeimlad cryf o gymuned, yr iaith Gymraeg, hunaniaeth a diwylliant Cymreig<br>• Grwpiau cymunedol yn cyd-weithio mewn ymateb i'r rhaglen Dyfodol Gwledig i ddatblygu prosiectau cymunedol cydlynol | • Canol y pentref yn wag a diffyg cyfleusterau sylfaenol.<br>• Diffyg gwasanaeth cludiant cymunedol i gefnogi pobl hŷn/anabl, ac ati. |

| | |
|---|---|
| • Pwyllgor Pentra, a ffurfiwyd yn ddiweddar, yn arwain ar ddatblygu ceisiadau am arian o fewn rhwydwaith Dyfodol Gwledig.<br>• Sylw cryf ar ddarparu adnoddau hamdden a chwaraeon ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned, gan adlewyrchu hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y pentref<br>• Tŷ Elidir yn ganolbwynt i ddigwyddiadau cymunedol a chyfleusterau atodol.<br><br>**TWRISTIAETH**<br>• Golygfa banoramig o'r Wyddfa a Llanberis - un o'r llefydd gorau i weld Eryri<br>• Prif fynedfa i chwarel Dinorwig ar gyfer cerdded a dringo<br>• Tirwedd a golygfeydd eithriadol yn yr ardal o gwmpas<br>• Hawdd cyrraedd y prif gyfleusterau i ymwelwyr yn Llanberis oddi yno<br>• Grŵp newydd wedi ei ffurfio gyda diddordeb mewn dehongli, gwella llwybrau cerdded, creu llwybrau newydd a gwella cyfleusterau i ymwelwyr, gan gynnwys parcio.<br><br>**TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Tirwedd unigryw'r chwarel, nodweddion hanesyddol a phensaernïaeth<br>• Balchder yn y gymuned ac awydd i rannu ei hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol gyda chynulleidfa ehangach<br>• Mae Menter Fachwen yn darparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn y diwydiannau lletygarwch a garddwriaeth, a gallai'r ddau gyfrannu at dwf twristiaeth. | • Dim endid cymunedol a allai gymryd cyfrifoldeb ariannol am reoli asedau cymunedol<br>• Prinder cyfleoedd cyflogaeth<br>• Bwlch yn y sgiliau sydd gan grwpiau cymunedol i ddatblygu, ariannu a rheoli prosiectau.<br>• Prinder cludiant cyhoeddus<br><br>**TWRISTIAETH**<br>• Er y lleoliad dramatig a'i agosrwydd at Yr Wyddfa, nid yw'n gyrchfan i dwristiaid.<br>• Bwytai ar agor yn ystod y dydd yn unig – y ddarpariaeth yn gyfyngedig<br>• Dim llety â gwasanaeth yn y pentref ei hunan<br>• Ddim yn elwa ar ei agosrwydd at Lanberis a'i ymwelwyr<br>• Dim paneli dehongli/gwybodaeth; diffyg arwyddion clir yn ardal y chwarel<br>• Diffyg cyfleusterau cyhoeddus<br><br>**TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Angen am well cyfleusterau cyhoeddus/ i ymwelwyr<br>• Diffyg cydlyniad wrth ddatblygu prosiectau er budd y gymuned a'r sector dwristiaeth<br>• Angen strategaeth gymunedol i fanteisio ar wariant gan ymwelwyr yn yr ardal a chreu cyfleoedd newydd i bobl leol ddatblygu busnesau newydd. |
| **CYFLEOEDD**<br>**CYMUNED**<br>• Dyfodol Gwledig – cyfleoedd ariannu sylweddol<br>• Creu perthynas effeithiol gyda Menter Fachwen er mwyn hwyluso rheolaeth o asedau cymunedol, yn arbennig caeau chwarae/pêl droed y pentref.<br>• Darparu cyfleusterau hamdden ar gyfer pobl ifanc – eu hannog i ymwneud â'r pentref.<br>• Manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant sgiliau a datblygiad personol a ddarperir drwy Dyfodol Gwledig i ddatblygu potensial arweinwyr y gymuned yn y dyfodol. | **BYGYTHIADAU/ HERIAU**<br>**CYMUNED**<br>• Erys canol y pentref yn wag a difywyd<br>• Diffyg cydlyniad a gweledigaeth yn cyfyngu ar y defnydd o arian Dyfodol Gwledig<br>• Materion cludiant cyhoeddus/cymunedol heb eu datrys<br>• Methiant â datblygu mentrau cymunedol yn y sector dwristiaeth a allai gyfrannu at yr economi leol a chyflogaeth<br>• Cynaliadwyedd economaidd a dirywiad cyffredinol pentrefi mewn ardaloedd gwledig<br>• Hinsawdd economaidd a gwleidyddol ansicr |

| | |
|---|---|
| **TWRISTIAETH**<br>• Agos at Lanberis sydd dan ei sang o ymwelwyr<br>• Darparu opsiynau llety newydd, yn arbennig llety â gwasanaeth yn y pentref ei hun<br>• Creu mynedfeydd newydd i Dinorwig drwy gylchdaith i Lanberis<br>• Darparu adnoddau parcio ychwanegol<br>• Hyrwyddo Deiniolen fel cyrchfan i gerddwyr/dringwyr a beicwyr mynydd - y brif fynedfa i Chwarel Dinorwig<br>• Creu maes parcio newydd dan reolaeth y gymuned yn Allt Ddu. | **TWRISTIAETH**<br>• Dim cyfleusterau yng nghanol y pentref ac, o ganlyniad, erys nifer yr ymwelwyr yn isel<br>• Prinder adnoddau ymwelwyr (yn arbennig ar y penwythnos/gyda'r nos)<br>• Colli'r cyfle i gynyddu gwariant yn lleol a allai ddod yn sgil y gorlif o ymwelwyr o Lanberis<br>• Heb wneud cynnydd gyda'r strategaeth ddehongli na'r cynlluniau am arwyddion a llwybrau newydd. |
| **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Enwebiad Safle Treftadaeth Byd<br>• Ymchwilio i ymestyn oriau agor caffis y pentref; ymgeisio i ddenu llefydd bwyta ac yfed newydd<br>• Gwella cludiant cyhoeddus gyda'r nos<br>• Ymchwilio'r posibiliadau o greu gofod ymwelwyr sy'n parchu'r amgylchedd yn Allt Ddu<br>• Manteisio i'r eithaf ar gynlluniau ariannu Dyfodol Gwledig<br>• Datblygu strategaeth ddehongli effeithiol sy'n hyrwyddo hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol gyfoethog Deiniolen<br>• Datblygu ffynonellau incwm newydd er budd y gymuned | **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Perygl fod canol y pentref yn dal i fod yn wag ac yn anneniadol<br>• Amharodrwydd i ddatblygu'r pentref fel canolfan i ymwelwyr<br>• Diffyg mentergarwch o ran cychwyn busnesau newydd<br>• Peidio manteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant sgiliau a datblygiad proffesiynol<br>• Grwpiau cymunedol yn ei gweld hi'n anodd cydweithio<br>• Endid cymunedol heb brofiad rheoli ariannol ac felly'n methu cael mynediad i gefnogaeth ariannol |

## 12 Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r casgliadau a'r argymhellion a amlinellir isod yn deillio o ymgynghoriad a wnaed ar y cyd â'r Rhaglen Dyfodol Gwledig, ac mae'n cynnwys yr archwiliad o'r gymuned ar asesiad ymwelwyr a wnaethom ni. Nid yw'r broses o adnabod prosiectau y gellid eu cyflwyno i Dyfodol Gwledig er mwyn sicrhau cefnogaeth ariannol wedi digwydd eto, felly gellid adolygu'r argymhellion hyn pan fydd y broses honno wedi ei chwblhau. Rydym wedi adnabod y themâu a ganlyn fel y blaenoriaethau adfywio i Ddeiniolen:

- Gwella canol y pentref
- Gwasanaethau cludiant
- Cyfleusterau i ymwelwyr
- Cyfleusterau hamdden
- Dehongli, a hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol
- Cyfeiriadedd, cysylltedd ac arwyddion
- Yr amgylchedd adeiledig hanesyddol

Gwella canol y pentref

- Ychydig iawn o'r ymwelwyr sy'n heidio i'r Allt Ddu sydd yn oedi yn y pentref. Byddai annog Caffi EBs i ymestyn ei oriau agor i gynnwys y penwythnos, a gyda'r nos o bosib, yn denu mwy o ymwelwyr i wario eu harian yn y pentref, gan hefyd ddarparu gofod cymdeithasol arall i'r pentref.

- Byddai llawer yn hoffi gweld siop sglodion yn agor yn y pentref - gallai hyn ychwanegu at y ddarpariaeth ar gyfer ymwelwyr a hefyd adnodd cymunedol sydd wir ei angen. Mae Siop y Gornel, adeilad diddorol o ran hanes lleol a phensaernïaeth, yn sefyll yn wag yng nghanol y pentref, a gallai fod yn lleoliad posibl, gan gyfuno ymdeimlad o hunaniaeth hanesyddol gyda defnydd poblogaidd.

Gwasanaethau cludiant

- Mae'r isadeiledd cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig ac, yn ôl y rhai a holwyd, yn anwadal ac yn annibynadwy. Mae'r gwasanaeth i Fangor yn anfoddhaol, yn arbennig i'r henoed sydd angen mynd i apwyntiadau ysbyty. Hefyd, nid oes gwasanaeth yn hwyr y nos o Gaernarfon, Llanberis, a Bangor sy'n cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth yn y sector hamdden.

- Ymddengys fod mwyafrif yr ymwelwyr i Allt Ddu/Dinorwig yn dod mewn car gan fod ganddynt offer/beics ac ati. Ond, mae posibilrwydd i greu llwybrau cerdded newydd drwy Chwarel Dinorwig a fyddai'n cysylltu gyda Llanberis, felly gallai gwasanaeth bws integredig fod o ddefnydd i gerddwyr o'r naill fan cychwyn neu'r llall.

- Cynigiwyd gwasanaeth bws cymunedol a fyddai'n bennaf at ddefnydd y gymuned, yn diwallu anghenion yr henoed ar gyfer siopa, mynd i'r ysbyty; darparu mynediad i bobl ifanc sydd eisiau mynychu gweithgareddau hamdden a chwaraeon; ac ati. Mae ystyriaethau ymarferol sydd angen sylw – yswiriant, staffio, amserlennu, lleoliad, perchnogaeth/rheolaeth.

Cyfleusterau i ymwelwyr
Dengys ein hymchwil fod gan Ddeiniolen, oherwydd ei lleoliad trawiadol a'i golygfeydd panoramig, ei agosrwydd at Allt Ddu, sef y brif fynedfa i Chwarel Dinorwig, ac at Lanberis, botensial aruthrol i ehangu ei chynnig i dwristiaid. Gallai hyn gynnwys:

- Ardal barcio wedi ei rheoli yn Allt Ddu; toiledau cyhoeddus; darpariaeth dehongli/gwybodaeth. Cynigiwyd y syniad o faes parcio cymunedol a allai greu incwm ar gyfer prosiectau cymunedol gan aelodau'r grŵp dehongli a aeth ati i drefnu nifer o deithiau ymchwil. Mae'n debyg mai perchnogaeth yr asedau cymunedol a'r tir fydd yr elfennau blaenllaw mewn unrhyw gynllun o'r fath.

- Llwybrau a mynedfeydd newydd; cylchdaith yn cysylltu gyda'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol/Llanberis/Rheilffordd Llyn Padarn.

- Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau ar y llwybrau newydd; cyfle i ddod i gyswllt â hanes lleol; treftadaeth ddiwydiannol; hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol.

- Darpariaeth ehangach o gaffis, faniau bwyd symudol ac ati; ymestyn oriau agor i fin nos/penwythnosau.

Er bod yma gyfleoedd arbennig, yn enwedig gan fod mwy o ymwelwyr yn Llanberis nag y gellir ymdopi â nhw, ond rhaid rhoi gwir ystyriaeth i natur a maint y datblygiad twristiaeth yn Neiniolen, fel ei fod yn cydweddu â harddwch naturiol a thirwedd digyffwrdd y lle. Rhaid cynllunio'n ofalus er mwyn osgoi tagfeydd traffig, llygredd amgylcheddol a chynnal cynnig twristiaeth cynaliadwy.

Cyfleusterau hamdden

Mae Pwyllgor Pentra, a ffurfiwyd yn ddiweddar, yn ceisio sicrhau fod y pentref yn lle bywiog ac atyniadol i bobl ifanc. Yn gyntaf oll, roedd angen ail agor y Clwb Ieuenctid, a oedd wedi cau oherwydd toriadau gan Wasanaethau Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Llwyddwyd i gael yr arian ac mae'r clwb nawr yn cael ei redeg gan rieni sy'n trefnu gweithgareddau yn Nhŷ Elidir, y ganolfan gymunedol a reolir gan Fenter Fachwen. Daw tua 30 o bobl ifanc yno bob wythnos ac, yn ffodus, mae'r problemau a gafwyd gynt gyda fandaliaeth ac ymddygiad anghymdeithasol wedi eu datrys.

- Mae Pwyllgor Pentra hefyd wedi adnabod caeau pâl droed y pentref fel elfen bwysig arall i sicrhau fod pobl ifanc ymddiddori yn y gymuned a chwaraeon. Mae'r rhain yn destun trefniadau trosglwyddo asedau cymunedol yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd i ddatganoli rheolaeth a gofal dros feysydd chwarae a chwaraeon cymunedol. Mae'r gost a'r modd y gellid darparu'r gwasanaethau hyn yn cael eu hystyried a chysylltwyd â Menter Fachwen, y fenter gymdeithasol leol, ynglŷn ag ymgymryd â'r gwaith rheoli.

- Mae Pwyllgor Pentra hefyd yn ystyried parc sgrialu a chae chwarae pob tywydd newydd. Byddai'r rhain yn ddibynnol ar ymchwil dichonoldeb pellach, adnabod lleoliadau, a ffynonellau ariannu posib.

Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn hollol wirfoddol ac, o'r oherwydd, heb statws elusen gofrestredig/buddiant cymunedol, sydd yn golygu na all fod yn rhan o gytundebau rheoli na chymryd rheolaeth dros unrhyw asedau cymunedol posib. Nid oes endid cymunedol cyfansawdd yn bodoli a allai arwain ar ddatblygiad cymunedol a mentrau, fel y gwnaeth Dyfodol Gwledig ei adnabod, a rhaid mynd i'r afael â hyn.

Dehongli a hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol

Mae ymdeimlad cryf iawn yn y pentref o'i hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol, gwaddol y chwarelwyr, a chefnogaeth i'r mudiadau diwylliannol a chymunedol a sefydlwyd ganddyn nhw – pêl droed, y seindorf arian, yr Eisteddfod, yr eglwys, y capeli, y carnifal, y clwb snwcer, y gymdeithas lenyddol – sydd i gyd yn weithredol heddiw.

Sefydlwyd grŵp cerdded i ymchwilio a darganfod hanes ardal Deiniolen, archwilio'r nodweddion treftadaeth ddiwydiannol yn Chwarel Dinorwig, ac ystyried anghenion dehongli'r dyfodol i bobl leol ac ymwelwyr. Gwnaed hyn mewn ymateb i weithgaredd rhaglen LleCHi Cyngor Gwynedd i gefnogi Cais Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Arweiniwyd y grŵp gan hanesydd lleol, ac ariannodd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen ei gyfraniad ef.

Mae'r grŵp wedi cynhyrchu adroddiad cynhwysfawr sydd yn trafod adnoddau dehongli – darpariaeth gyfredol ac i'r dyfodol; llwybrau mynediad, a llwybrau newydd a chysylltiadau gyda Llanberis; adfer adeiladau a nodweddion hanesyddol pwysig; adolygiad o daflenni gwybodaeth a mapiau; digwyddiadau; teithiau tywys; darparu Pwyntiau Hanes; brandio; a strategaeth dehongli. Manylir ar y rhain yn y Cynllun Gweithredu atodol.

- Mae'r grŵp yn wirfoddol ac wedi cyflwyno ei argymhellion i LleCHi/Cyngor Gwynedd am ystyriaeth bellach ac i sefydlu'r blaenoriaethau pan fabwysiedir y Cynllun Gweithredu a rhaglen ariannu Dyfodol Gwledig yn ffurfiol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y grŵp arian na'r gallu sefydliadol i fwrw ymlaen gyda'r syniadau hyn heb gael cefnogaeth o ffynonellau eraill.

- Un mater penodol a nodwyd yw'r diffyg gofod dehongli/canolfan a allai fod yn fan cyfarfod ar gyfer teithiau tywys/gweithgareddau addysgiadol. Awgrymwyd y gallai Allt Ddu fod yn lleoliad posib, ond byddai hyn yn golygu gwneud cryn waith cynllunio er mwyn pennu ei ddichonolrwydd.

- Mae'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol wrthi'n datblygu cais am arian sylweddol er mwyn ail-ddatblygu ei chyfleusterau dehongli a'r amgueddfa, felly byddai angen ystyried y ddarpariaeth o adnoddau dehongli yn Neiniolen yn y cyd-destun hwn.

- Dewis arall yw Melin Sarn ac ail-ddefnyddio'r adeiladau hanesyddol fel canolfan i ymwelwyr/gofod dehongli ac addysgiadol.

Ers amser maith, yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis sydd wedi bod yn gyfrifol am ddehongli Chwarel Dinorwig, ond yn sgil cais UNESCO bid a Deiniolen yn cael ei bennu yn ardal Cynllun Cynefin, mae ymdeimlad cynyddol yr hoffai'r gymuned ddathlu a hyrwyddo ei hanes a'i hunaniaeth, yn enwedig gan y bydd cau'r chwarel yn cael ei goffáu ym mis Awst 2019. Bydd digwyddiadau arbennig yn cael eu trefnu a fydd yn canolbwyntio ar bentref Deiniolen a'r bobl a fu'n gweithio yn y chwarel, yn ogystal â'r rhai a drefnir gan yr Amgueddfa Llechi.

Mae nifer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad yn berthnasol i'r prif gynllun dehongli sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu ar ran tîm y cais. Mae'n hanfodol fod ymgynghori'n digwydd gyda'r gwahanol grwpiau sy'n ymgymryd â dehongli'n lleol er mwyn cael strategaeth gydlynol sydd yn adlewyrchu pryderon lleol ac sy'n manteisio ar wybodaeth leol a'r balchder o gael rhannu hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol.

Mae sefydliadau eraill sy'n dymuno chwarae rhan yn y gwaith dehongli:

- Mae Menter Fachwen yn ystyried sefydlu arddangosfa o hanes Deiniolen yn Nhŷ Elidir, ac mae gan Gareth Roberts, ei swyddog teithiau cerdded, wybodaeth helaeth am

hanes yr ardal ac mae ganddo fynediad i gasgliad helaeth o ffotograffau, creiriau ac ati.

- Mae Seindorf Arian Deiniolen hefyd mewn trafodaethau am gael arddangosfa fwy ffurfiol o luniau'r band a chreiriau yn y Cwt Band, er mwyn cyflwyno hanes y band a chael y to ifanc i ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth, ac yng nghyfraniad pwysig y band i hunaniaeth ddiwylliannol Deiniolen.

Gan fod y ddau leoliad ddim ond ar agor ar adegau penodol o'r dydd, dylid ystyried lle a sut fyddai orau i arddangos y deunydd, ynghyd â'r cyfrwng, a'r modd y'u rheolir yn y dyfodol.

Efallai y gellid cynnwys y casgliadau yma fel adran ar wahân ar Ddeiniolen yng Nghasgliad y Werin, a reolir gan y Llyfrgell Genedlaethol. Byddai angen ystyried adnoddau staffio ac amser, oni wneir y gwaith yn wirfoddol.

<u>Cyfeiriadedd, cysylltiadau ac arwyddion</u>

Mae Chwarel Dinorwig wedi llunio hanes Deiniolen a Llanberis; mae'r ddwy gymuned yn rhannu ymdeimlad o hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol, a dealltwriaeth hynod o'u treftadaeth ddiwydiannol.

O ran y dirwedd, mae'r chwarel yn bongamu'r mynydd rhwng y ddau bentref. Mae'r dringwyr ac anturiaethwyr awyr agored yn cael mynediad i'r chwarel yn Allt Ddu, y tu hwnt i Ddeiniolen a Dinorwig, tra bod Llanberis wedi datblygu'n atyniad pwysig i dwristiaid oherwydd ei leoliad wrth droed Yr Wyddfa, yr adnoddau o gwmpas Llyn Padarn, a'r atyniadau megis yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol.

- Soniodd nifer o'r rhai a holwyd yn Llanberis ac yn Neiniolen am y diffyg cysylltiad rhwng y ddau bentref gan nad oes cylchdaith drwy'r chwarel. Mae hyn yn rhwystro ymwelwyr â'r Amgueddfa Llechi rhag mynd i'r chwarel, er bod llwybrau drwy Barc Padarn i Ddeiniolen.

- Gan fod Llanberis dan ei sang ar adegau brig, â hynny'n creu problemau gyda pharcio a llif ymwelwyr, teimlir y byddai'n werth ystyried agor llwybrau newydd a fyddai'n creu llif ymwelwyr gwahanol. Fel hyn, gallai pobl gerdded y llwybr ar ei hyd neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd naill ben llwybr y chwarel neu'r llall.

- Nid yw'r arwyddion yn glir ar hyn o bryd. Mae'r arddull a'r cynnwys yn amrywio, ac awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth wybodaeth/dehongli pe bai llwybrau newydd yn cael eu gosod. Mae lleoliad Pwyntiau Hanes yn y chwarel hefyd yn cael ei ystyried.

- Llwybr posib arall yw'r hen ffordd haearn bach a allai gysylltu gyda Pharc Padarn er mwyn darparu llwybr beicio, gyda chefnogaeth Sustrans.

**Yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol**

Mae nifer o adeiladau pwysig a nodweddion adeiledig sydd yn haeddu sylw pellach o safbwynt adnewyddu, ail-ddefnyddio a photensial adfywio. Ceir rhagor o wybodaeth ac asesiad cychwynnol, yn ddibynnol ar drafodaeth bellach gyda'r mudiadau cadwraeth perthnasol a swyddogion, yn yr Astudiaeth o'r Amgylchedd Adeiledd Hanesyddol (Atodiad 4).

Yn sgil adolygiad trylwyr o safleoedd treftadaeth wedi'u gwarchod (h.y. wedi eu rhestru neu wedi eu cofrestru) a'r rhai sydd heb eu gwarchod hyd yma, mae nifer o ddarpar brosiectau allweddol wedi dod i'r amlwg. Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Manylir ar y rhain yn Adran 10/Yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol ac yn y Cynllun Gweithredu atodol.

- **Melin Sarn**, hen felin a gynhyrchai lechi ysgrifennu. Hwn yw'r adeilad pwysicaf (II*) yn Neiniolen o bell ffordd.

- **Siop y Gornel**, heb ei restru ond mewn lleoliad da ac un o adeiladau cynharaf y pentref, c.1830.

- **Hen Lyfrgell Carnegie**, adeilad allweddol, posibilrwydd o'i ddefnyddio fel gofod dehongli a hefyd i gefnogi darpariaeth ieuenctid.

- **Y Drewedd,** rhaglen benodol o welliannau, addurno, adfer nodweddion traddodiadol i wella'r drewed.

- **Llwybrau drwy'r Chwarel a Chysylltiadau**, angen ystyried creu llwybrau a chysylltiadau newydd er mwyn darparu llwybrau beicio i Ddinorwig a'r chwareli.

<u>Materion a heriau sefydliadol</u>

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â'r rhaglen Dyfodol Gwledig a'n ymgynghoriad ni, daeth rhai materion cyffredinol i'r amlwg a fydd angen ymdriniaeth bellach wrth fynd i'r afael â datblygiad cymunedol i'r dyfodol:

<u>Endid Cymunedol</u>
Ar hyn o bryd, nid oed endid cymunedol cyfansoddiadol a allai gymryd cyfrifoldeb cyfansoddiadol am brosiectau. Mae hyn yn hynod bwysig i'r prosiectau hynny sy'n ddibynnol ar drosglwyddo asedau cymunedol a'r rhai hynny sydd angen strwythurau rheolaeth ariannol gadarn. Gallai'r rhain gynnwys y gwasanaeth cludiant cymunedol arfaethedig, maes parcio a reolir gan y gymuned, rheolaeth o'r caeau pêl droed/meysydd chwarae.
<u>Gallu sefydliadol/datblygu prosiect</u>
Mae'r grwpiau cymunedol i gyd yn rhai gwirfoddol ac y mae'r syniad o allu cael mwy o arian wedi eu hysbrydoli i feddwl am amryw fentrau; ond yn realistig ni fyddai modd eu rhedeg yn wirfoddol. Os ydynt yn llwyddo i ddenu'r arian sylweddol, rhaid cael cydnabyddiaeth bod

angen rhaglen gyfatebol i ddatblygu sgiliau busnes/trefniadaeth/rheoli prosiect. Dylid hefyd sicrhau, mewn unrhyw gais am arian, fod cyllid yn cael ei glustnodi ar gyfer costau gweinyddol a rheoli prosiect.

Datblygu adnoddau ymwelwyr ac atyniadau ar y cyd
Dylai Cynlluniau Cynefin Deiniolen a Llanberis ystyried y datblygiadau sy'n gyfochrog yn y ddau bentref er mwyn osgoi ceisiadau am yr un arian, a bod cydweithio'n cael anogaeth pan fydd gweithgareddau ac adnoddau tebyg yn cael eu cynnig.

Ar adegau brig, pan fydd Llanberis yn mynd yn rhy brysur ac yn ceisio ymdopi â'r problemau cysylltiol, mae'n bosib y gellid datblygu Deiniolen fel cyrchfan amgen yn yr ardal. Byddai rhaid gweithredu dull integredig o fynd i'r afael â materion megis problemau traffig, llif ymwelwyr, cysylltedd, a chynaliadwyedd amgylcheddol.

## 13 Ffynonellau ariannu posib

Rydym wedi adnabod y ffynonellau ariannu posib isod. Manylir ar y ffynonellau hyn ymhellach yn y ddogfen ariannu atodol (ynghyd â ffynonellau eraill llai), a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiectau arfaethedig:

- Cais Twf Gogledd Cymru
- Cronfa Datblygu Cymunedol Gwledig
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)/Cronfa Busnesau Bach a Micro
- Datblygu Cynllun Rhodd Ymwelwyr

  **Arian Loteri:**
- Gwobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol
- Pawb â'i Le (Grantiau Canolig a Mawr)
- Rhaglen Wledig Rownd 2
- Y Gronfa Dreftadaeth (CTL gynt)
- Dyfodol Gwledig
- Rhaglen Datblygu Gwledig/Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER)
- Y Gronfa Dreftadaeth Bensaernîol
- Rhaglen Cartrefi Gwag
- Grantiau Cymorth Cartrefi Gwag
- Adfywio Llywodraeth Cymru
- Rhaglen Adnoddau Cymunedol/Llywodraeth Cymru
- Economi Sylfaenol/Llywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Gymunedol First Hydro
- Cronfa Celfyddydau Cymunedol Gwynedd, Cyngor Gwynedd

Mae'r prosiectau hyn wedi eu hadnabod yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a budd-ddeiliaid. Ond, bydd y gwaith o'u gweithredu a'u blaenoriaethu, fel dengys y Cynllun Gweithredu, yn ddibynnol ar adnabod corff arweiniol addas a sicrhau'r arian i ymgymryd â'r gorchwylion a adnabuwyd. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu'r flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r prif fudd-ddeiliaid.

## Atodiad 1    Rhestr o unigolion /mudiadau yr ymgynghorwyd â nhw

- Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
- Seindorf Arian Deiniolen
- Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
- Dyfodol Gwledig
- Gŵyl Deinolen
- Grŵp Llywio Deiniolen, Dyfodol Gwledig
- Menter Fachwen
- Pwyllgor Pentra
- Swyddog Cefnogi Cymuned Cyngor Gwynedd (Deiniolen)
- Idris Thomas, Hanesydd Lleol

## Atodiad 2    Mynegai Amddifadedd a Sectorau Cyflogaeth

Mynegai Amddifadedd Lluosog

Dengys y data sut y mae ACEHI Deiniolen yn cymharu ag ardaloedd ledled Cymru ac yng Ngwynedd; mynediad i wasanaethau a thai yw meysydd mwyaf arwyddocaol amddifadedd Deiniolen ac ym maes addysg y mae'r lleiaf o amddifadedd.

| | **Rheng yn gyffredinol (allan o 1909)** | **Cyffredinol %** | **Rheng Gwynedd (allan o 73)** |
|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 671 | 30% - 50% | 9 |
| Incwm | 626 | 30% - 50% | 8 |
| Cyflogaeth | 701 | 30% - 50% | 9 |
| Iechyd | 774 | 30% - 50% | 9 |
| Addysg | 1072 | 50% o leiaf | 24 |
| Mynediad i wasanaethau | 300 | 10% - 20% | 31 |
| Diogelwch cymunedol | 919 | 30% - 50% | 28 |
| Amgylchedd ffisegol | 716 | 30% - 50% | 7 |
| Tai | 395 | 20%-30% | 35 |

Cyflogaeth fesul sector

Dengys y tabl isod (ffynhonnell: data cyfrifiad, 2011) y sectorau lle cyflogir aelodau'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd. Ar y cyfan, mae cyfran y boblogaeth a gyflogir ym mhob sector yn Neiniolen yn debyg cyfrannau cyfartalog a gyflogir ym mhob sector ar draws Gwynedd - nid oes amrywedd o fwy na 4%. Y gwahaniaethau mwyaf amlwg yw bod gweithgynhyrchu'n uwch na'r cyfartaledd yn Neiniolen gyda chyflogaeth mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, llety a gwasanaethau bwyd, yn is na'r cyfartaledd.

Y sectorau sy'n darparu'r canrannau uchaf o gyflogaeth (dros 10%) yw iechyd a gwaith cymdeithasol, addysg, cyfanwerthu a manwerthu, adeiladu; y sectorau isaf (o dan 3%) yw amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, cludiant a storio, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a chyfathrebu, cyllid ac eiddo.

| **Diwydiant/Cyflogaeth** | **Deiniolen** | **Cyfartaledd Gwynedd** |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota | 0.8% | 3.5% |
| Mwyngloddio, Chwarela, Ynni a Dŵr | 4.5% | 2.6% |
| Cynhyrchu | 8.9% | 5.8% |
| Adeiladu | 10.8% | 9.6% |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 12.7% | 14.5% |
| Trafnidiaeth a Storio | 2.5% | 3.4% |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd | 7.5% | 9.8% |
| Cyfathrebu, Arian ac Eiddo | 2.9% | 4.3% |
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 2.5% | 3.7% |
| Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogaeth | 4.2% | 3.5% |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn | 7.0% | 6.4% |
| Addysg | 14.0% | 12.6% |
| Iechyd a Gofal | 14.8% | 14.7% |
| Eraill | 6.9% | 5.6% |

**Atodiad 3 Proffil Ymwelwyr/Twristiaeth**

Dyma grynodeb o broffil ymwelwyr i Wynedd i roi gwell dealltwriaeth o'r mathau o ymwelwyr y mae Deiniolen yn eu denu ar hyn o bryd ac y gallai eu denu, yn ogystal â'r cymhelliant a'r rhesymau dros ymweld.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020

Prif amcanion Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020 yw:

- ymestyn y tymor ymwelwyr
- cynyddu gwariant gan ymwelwyr
- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd
- gwella'r cymathiad rhwng twristiaeth ag agweddau eraill o fywyd
- gwella'r amgylcheddau naturiol, adeiledig a diwylliannol

- adeiladu a chynnal a chadw isadeiledd a mwynderau cyhoeddus o ansawdd
- darparu swyddi o ansawdd, sy'n talu'n dda drwy gydol y flwyddyn, a datblygu sgiliau

Cynhaliwyd arolwg ar-lein fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ac, er mai ar gyfer Gwynedd gyfan y mae'r canfyddiadau, mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn berthnasol i Ddeiniolen. Gellir nodi'r rhain fel y prif faterion sydd angen ymdriniaeth:

- Gwell cyfleusterau i ymwelwyr
- Gwell cyfleusterau cyhoeddus e.e. goruwchadeiledd ymwelwyr, megis llety gwyliau a gweithgareddau penodedig
- elfennau isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd a mannau cyhoeddus eraill
- Atyniadau o ansawdd i ymwelwyr
- Darpariaeth parcio
- Gwell gwasanaethau lleol
- Ymddwyn yn fwy cyfeillgar tuag at ymwelwyr
- Gwell siopau a gwell cyfleoedd i siopa

Dylai unrhyw ddatblygiad twristiaeth yn ardal Deiniolen roi ystyriaeth i'r amcanion a'r materion a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau bod unrhyw brosiectau ar lefel leol yn dylanwadu ar flaenoriaethau strategol y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013; anghenion ymwelwyr

Dyma **brif ganfyddiadau'**r arolwg o anghenion ymwelwyr a gynhaliwyd yn 2013 (fel rhan o Arolwg Ymwelwyr Cymru):

- Ychydig iawn o wibdeithiau dydd sy'n cael eu trefnu; adroddodd 69% o ymwelwyr dydd i Gymru a holwyd nad oeddynt wedi defnyddio unrhyw wybodaeth wrth gynllunio eu trip i Gymru
- Defnyddiodd 57% o ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU wybodaeth ar-lein i gynllunio eu hymweliadau, sy'n cymharu â 18% a ddefnyddiodd ffynonellau ddim ar-lein. Ond, mynegodd nifer o gyfranogwyr bwysigrwydd deunyddiau wedi'u hargraffu yn ystod eu hymweliad. Defnyddiodd 38% o ymwelwyr i Gymru a oedd yn aros yn y DU ffynonellau ddim ar-lein yn ystod eu hymweliad, sy'n cymharu â 17% a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein.
- Y dylanwadau pwysicaf ar ddenu ymwelwyr newydd i ardal yw argymhellion a phrofiadau ffrindiau/perthnasau/cyd-weithwyr
- Mae pobl leol, yn arbennig darparwyr llety, yn chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar le mae ymwelwyr yn dewis mynd. Mae ymwelwyr yn ceisio eu cyngor nhw, ac mae ganddynt fwy o ffydd ynddynt hwy nac mewn adolygiadau ar-lein am eu bod yn byw yno. Felly, mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio gwybodaeth leol i wirio eu rhestr gweithgareddau a baratowyd, neu i gael syniadau newydd.

Mae'n amlwg fod deunyddiau marchnata a gwybodaeth ar-lein a ddim ar-lein yn bwysig i ymwelwyr ac mae'n bwysig ystyried y canfyddiadau hyn wrth adolygu presenoldeb a phroffil ar-lein Deiniolen. Mae'r un peth yn wir wrth gynllunio ymgyrchoedd marchnata i'r dyfodol ac wrth ddatblygu deunyddiau hyrwyddo/wedi'u hargraffu. Gellid ystyried sefydlu cynllun Llysgenhadon gyda phobl leol yn gweithredu fel Llysgenhadon/tywyswyr/ffynonellau gwybodaeth i ymwelwyr.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2016

Dyma'r **prif ganfyddiadau am broffil ymwelwyr â Gwynedd** a gyflwynwyd gan Beaufort Research yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016:

- Mae mwyafrif yr ymwelwyr â Gwynedd yn byw yn Lloegr (60%)
- Mae canran yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Ngwynedd yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae lawer yn uwch na chanran yr ymwelwyr â Chymru gyfan (37%) sy'n dod o weddill y DU
- Mae oddeutu traean (37%) yr ymwelwyr yn byw yng Nghymru o'i gymharu â 59% o'r holl ymwelwyr â Chymru; mae 3% yn byw dramor, o gymharu â 4% ar gyfartaledd yng Nghymru gyfan
- Mae Gwynedd yn denu canran uwch o ymwelwyr mwy cefnog ABC1[1] (48%) o'i gymharu â holl safleoedd Cymru (32%).
- Yn ôl yr arolwg, mae dros draean yr ymwelwyr â Gwynedd (35%) yn ymweld gyda phlant (â'r mwyafrif ohonynt yn blant bach)
- Mae cwta draean (30%) yr ymwelwyr yn gyplau
- Roedd mwyafrif sylweddol (71%) yr ymwelwyr â Gwynedd (o'r rhai a holwyd) wedi dod am y diwrnod, sydd lawer yn is na'r canran ar gyfer Cymru gyfan, sef 88%.
- Mae mwyafrif llethol yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn byw yn Lloegr (82%), a nifer cyfartalog y nosweithiau a arhoswyd yng Ngwynedd yw 5.8, o'i gymharu â 6.0 ar draws Cymru

**Y rhesymau dros ymweld, a'r gweithgareddau a wnaed**

- Nododd mwyafrif (73%) yr ymwelwyr â Gwynedd mai'r rheswm dros ymweld oedd cael mwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau, sydd yn ganran uwch nac ar gyfer Cymru gyfan (56%)
- Roedd ymwelwyr â Gwynedd hefyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod yno i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored o'i gymharu â holl ardaloedd Cymru (41% yn hytrach na 25%)
- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg rhyw draean o'r ymwelwyr â'r rhanbarth oedd mynd i'r traeth (34%), ymweld yn gyffredinol (33%) a mynd i barciau gwledig (31%).

**Boddhad, ail-ymweld ac argymell:**

- Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â Gwynedd yn hynod o fodlon gyda'u hymweliad â Chymru, gydag wyth o bob deg (82%) yn rhoi sgôr o 9 neu 10 (allan o 10) i Gymru fel cyrchfan.
- Roedd tripiau ymwelwyr i/yng Nghymru y tu hwnt i ddisgwyliadau ychydig dros draean o ymwelwyr â Gwynedd - gyda 37% yn datgan fod yr ymweliad yn well na'r disgwyl
- Dywedodd yr holl ymwelwyr â Gwynedd bron y byddent yn debygol o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol (98%); gyda 92% yn bendant am ddychwelyd a 6% yn debygol o ail-ymweld.

Nifer yr ymwelwyr a'r effaith economaidd cysylltiol

2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd (data 2016 yw'r mwyaf diweddar sydd ar gael). Gwariodd twristiaid dros £1 biliwn yn yr economi

[1] Mae ABC1 a C2DE yn raddau cymdeithasol bras; mae chwe categori (A, B, C1, C2, D a E) ac fe'u defnyddir gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol y DU. Dyma'r categoriau:
AB – galwedigaethau rheoli, gweinyddu a phroffesiynol canolradd ac uwch
C1 – galwedigaethau goruchwylio,clerigol, rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is
C2 – galwedigaethau gwaith llaw medrus
DE – galwedigaethau gwaith llaw rhanol fedrus a di-grefft; y di-waith a galwedigaethau raddfa isaf

leol. Ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y prif dymor gwyliau, gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Ebrill o'i gymharu â blynyddoedd cynharach.

Ymwelodd dros 7 miliwn o bobl â Gwynedd yn 2016, sef cynnydd o 3.2% ar y flwyddyn flaenorol; roedd 3.5 m o'r rhain yn aros yma (cynnydd o 5.5% ar 2015), a'r 3.6 m arall yn ymweld am y dydd.

O ran yr effaith economaidd, cafwyd gwariant uniongyrchol £0.75 biliwn yn 2016
(cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol). Canlyniad hyn oedd effaith economaidd o dros £1 biliwn (cynnydd o 4.5% ar 2015). Yn 2016, cyflogwyd 12,725 yn uniongyrchol yn sgil twristiaeth (cynnydd o 1.6% ar 2015); a chyrhaeddodd cyfanswm cyflogaeth (FTE) 15,557 (cynnydd o 2.1% o'r flwyddyn flaenorol). (Ffynhonnell: data STEAM).

**Atodiad 4: Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol**
**WSTS01 Adeiladau rhestredig, Deiniolen**
**WSTS04 Adeiladau eraill, Deiniolen**
**WSTS08 Cyfleoedd, Deiniolen**
**Matrics adeiladau a nodweddion hanesyddol – Deiniolen a Dinorwig**